Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd**

**Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd**
**2 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Andrea McCormack |
| Lleoedd cofrestredig | 96 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. 'Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r feithrinfa. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwych i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau o ansawdd a chwarae.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi sylw i anghenion y plant, ac yn parchu'r plant yn eu gofal. Maent yn cadw cofnodion da o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr rhagorol. Mae'r dodrefn, teganau ac adnoddau ansawdd uchel dan do ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo chwarae a datblygiad y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hyrwyddo iechyd a llesiant y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn rhagorol. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff i gyflawni eu gwaith yn dda iawn. Roedd y rhieni yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff yn y feithrinfa. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y gwasanaeth gorau ei ddarparu i'r holl blant sy'n mynychu'r feithrinfa.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad hwn. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Mae ganddynt ryddid i ddewis o amrywiaeth eang o weithgareddau. Er enghraifft, gwelsom fabanod a phlant hŷn yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion, yn ogystal â mwynhau chwarae'n rhydd gydag adnoddau o'u dewis. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y staff a mynegi eu meddyliau a'u syniadau, oherwydd maen nhw'n gwybod y byddant yn gwrando arnynt ac y caiff eu holl ymdrechion i gyfathrebu eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gwelsom fod y staff yn ymateb yn gyflym pan oedd y babanod yn rhoi arwyddion dieiriau iddynt eu bod eisiau maldod neu eisiau rhyngweithio.

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol y maent yn eu mwynhau ac sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn tacluso'n frwdfrydig wrth baratoi am amser cylch.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n dawel ochr yn ochr â'i gilydd a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn dysgu parchu ei gilydd ac adnoddau'r feithrinfa, gan ddysgu rhannu a defnyddio cyfarpar yn briodol.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn. Maent yn cael budd o amrywiaeth ragorol o adnoddau chwarae a dysgu priodol i oedran ym mhob ystafell ac ar y tu allan. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom y plant ar ben eu digon wrth chwarae. Er enghraifft, plant ifanc yn gwenu wrth fynd i lawr y llithren, plant eraill wedi ymgolli'n llwyr mewn rhannu llyfrau a babanod yn cropian yn gyffrous i weld y swigod. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i gynnal eu chwarae am gyfnodau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn datblygu ystod ragorol o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn annibynnol. Gwelsom y plant iau yn bwydo eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth yn ôl yr angen. Mae'r plant yn dysgu rheoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain, er enghraifft, gwelsom y plant yn dysgu sut i sychu eu trwynau ac yn rhoi eu hances yn y bin.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y feithrinfa. Maent yn fedrus wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu trylwyr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran eu rôl wrth ddiogelu'r plant. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad drwy gwblhau'r gwaith papur perthnasol a rhoi gwybod amdano er mwyn hyrwyddo diogelwch y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Caiff damweiniau a digwyddiadau, ynghyd â rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn eu cofnodi'n briodol. Mae'r plant yn golchi eu dwylo i baratoi ar gyfer amser byrbryd, ond ni chânt eu hannog yn gyson i sychu eu dwylo. Mae polisïau manwl a chynhwysfawr ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r holl staff yn darllen y polisïau ac yn glynu wrthynt o ddydd i ddydd.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, gwnaeth aelod o'r staff yn yr ystafell babanod gydnabod bod plentyn wedi cynhyrfu am ei fod wedi blino. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer y plant yn eu gofal, ac yn eu trin nhw, a'i gilydd gyda gofal, parch a charedigrwydd. Mae'r arweinwyr ystafell yn sicrhau y caiff arferion ansawdd uchel eu cynnal drwy gydol pob diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson pan oedd arweinydd ystafell i ffwrdd o'r gwaith ar ddiwrnod yr arolygiad. Aethom i'r afael â hyn gyda'r tîm rheoli yn ystod yr arolygiad. Maent wedi rhoi sicrwydd i ni fod cynlluniau ar waith i sicrhau cysondeb ar gyfer staff a phlant pan na fydd arweinydd ystafell yn bresennol. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng nghyflawniadau'r plant ac maent yn frwdfrydig pan fydd plentyn yn cwblhau gweithgaredd yn annibynnol. Er enghraifft, gwnaeth aelod o'r staff ganmol plentyn am ddweud *'woo hoo, look at you, yay, you're so clever'* pan gymerodd plentyn ifanc lymaid o'i chwpan yn annibynnol.

Mae'r staff yn gefnogol, yn fagwrus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u datblygiad. Mae system dda ar waith i gofnodi a nodi cynnydd a chamau nesaf y plant. Gwelsom y staff yn cwblhau arsylwadau yn unol â system olrhain datblygiad y plant a'u cynlluniau unigol. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n dilyn cyfraniad a diddordebau'r plant. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn gryf ym mhob rhan o'r feithrinfa.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi yn sicrhau mai dim ond aelodau o'r tîm rheoli all gael mynediad awdurdodedig. Mae asesiadau risg manwl a chynhwysfawr ar waith ar gyfer y safle a'r gweithgareddau a gynhelir. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae'r staff yn wyliadwrus am unrhyw risgiau sy'n codi yn yr amgylchedd. Er enghraifft, gwelsom y staff yn nodi eitem anaddas ac yn cael gwared arni'n syth. Mae gwiriadau a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r adran diogelwch bwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a bod y tystysgrifau yswiriant yn gyfredol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar iawn i blant. Mae wedi'i addurno'n dda gyda lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r feithrinfa. Mae digon o le a golau yn y prif ystafelloedd sy'n rhoi gofod mawr a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth iddynt chwarae. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u gosod mewn modd diddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd, awydd i archwilio a datblygiad y plant. Ceir amrywiaeth ragorol o adnoddau a llyfrau pwrpasol sydd ar gael yn rhwydd i'r plant, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r cyfarpar dan do yn hyrwyddo datblygiad corfforol gyda grisiau a llithrennau mewn rhai prif ystafelloedd. Mae gan yr ardal awyr agored amrywiaeth dda o gyfarpar, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae adnoddau ar gael i'r plant yn yr awyr agored sy'n eu hannog i ddatblygu eu sgiliau echddygol bras fel trawstiau cydbwyso, gweithgareddau neidio a lleoedd mawr i reidio beiciau a threiciau neu redeg o gwmpas.

Mae'r teganau, adnoddau, dodrefn a chyfarpar yn y feithrinfa mewn cyflwr rhagorol, cânt eu cynnal yn dda iawn ac maent o ansawdd rhagorol. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant ym mhob ystafell yn y feithrinfa. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae sebon hylif a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn rhwydd er mwyn cefnogi annibyniaeth y plant wrth fynd i'r afael â'u gofal personol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn rhagorol. Caiff y person â chyfrifoldeb ei gefnogi'n dda iawn gan yr uwch dîm rheoli. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y lleoliad ac maen nhw'n chwilio am ffyrdd bob amser i wella ymarfer sydd eisoes yn rhagorol. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a'u teuluoedd yn glir ac yn gywir. Mae'r polisïau a gweithdrefnau'n gynhwysfawr ac yn fanwl, sy'n helpu i redeg y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y ddogfennaeth wedi'i threfnu'n dda ac ar gael yn rhwydd. Mae ffeiliau'r staff yn drwyadl ac mae'r holl wiriadau diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd a'i arfarnu'n flynyddol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynnal sesiynau galw heibio wythnosol lle gall yr aelodau o staff siarad â hi am unrhyw faterion, gofidiau neu bryderon cyn eu dyddiad goruchwylio nesaf. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r sesiynau hyn ac yn eu helpu i deimlo bod y rheolwyr yn gwrando arnynt. Mae adroddiad manwl ar ansawdd y gofal ar waith sy'n dathlu cyflawniadau'r feithrinfa ac yn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau'r dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried safbwyntiau'r plant, y staff a'r rhieni.

Mae system glir ar waith i nodi'n hawdd fod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff yn gyfredol. Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyfredol, megis cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Mae systemau ar waith i nodi hyfforddiant ychwanegol os bydd ei angen ar staff. Caiff y rhain eu cynnal yn fewnol a thrwy ddarparwyr hyfforddiant allanol. Mae'r rheolwr gweithredol ar gyfer y feithrinfa'n sicrhau bod arferion gweithio'r staff yn gyfredol a'i fod yn rhoi adborth i'r staff, y person â chyfrifoldeb ac uwch reolwyr, os bydd angen hyn. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser.

Mae'r rheolwyr yn gweithio'n agos iawn gyda gofalwr y feithrinfa i sicrhau mai diogelwch y plant yn eu gofal yw'r flaenoriaeth uchaf drwy'r amser. Mae cysylltiadau cryf wedi'u meithrin rhwng y feithrinfa a'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus dros ben gyda'r gwasanaeth y mae'r feithrinfa'n ei ddarparu. Dywedodd y rhieni wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r staff yn rhoi gwybod iddynt am gerrig milltir y mae eu plant wedi'u cyflawni yn ystod eu hamser yn y feithrinfa. Ceir mathau rhagorol o gyfathrebu rhwng y feithrinfa a'r rhieni, gan gynnwys adborth dyddiol ar lafar, cylchlythyrau a ffotograffau a diweddariadau drwy ap y mae'r feithrinfa'n ei ddefnyddio.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau y caiff arferion iechyd a hylendid eu dilyn yn gyson drwy'r feithrinfa

A2. Sicrhau cysondeb yn yr ystafelloedd gofal plant ym mhob rhan o'r feithrinfa, pan na fydd yr arweinwyr ystafell yn bresennol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/02/2023